

Is-olygydd

Cyflwyniad

Mae is-olygyddion yn gwneud yn siwr bod erthyglau print ac erthyglau ar-lein yn gywir cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Maen nhw'n gweithio ar gyhoeddiadau fel papurau newydd, cylchgronau a gwefannau. Mae is-olygyddion yn gwirio bod copi yn darllen yn dda, nad oes ganddo unrhyw gamgymeriadau sillafu na chamgymeriadau gramadegol a'u bod yn ffitio'n iawn ar y dudalen. Efallai y byddent hefyd yn ysgrifennu penawdau, 'standfirsts' (cyflwyniadau byr) a chapsiynau i luniau.



Adwaenir hefyd fel

- Golygydd Copi.
- Golygydd Desg

Gweithgareddau Gwaith

Fel Is-olygydd, byddwch yn gwneud yn siwr bod y copi yn darllen yn dda ac yn gwneud synnwyr, ac nad oes unrhyw gamgymeriadau sillafu neu wallau gramadegol ynddo. Byddwch yn sicrhau ei fod yn dilyn yr arddull ty, ei fod o'r hyd cywir ar gyfer y cyhoeddiad, nad oes unrhyw gynnwys ar goll na chynnwys amherthnasol, ac nad yw'n cynnwys ailadrodd diangen. Rhaid bod gennych lygad da am fanylion! Os yw'r gwaith yn rhy hir, byddwch yn tocio adrannau diangen neu ailadroddus ac yn ailysgrifennu'r testun, gan ofalu peidio â cholli'r ystyr gwreiddiol. Byddwch yn gwirio nad oes unrhyw beth sy'n torri'r gyfraith neu a allai niweidio enw da rhywun heb gyfiawnhad. Gallech hefyd ysgrifennu penawdau, gan feddwl am rywbeth gwreiddiol a bachog a ffraeth, o bosibl, i ddenu sylw'r darlennydd! Gallech hefyd ysgrifennu 'standfirsts' (sef cyflwyniadau byr sy'n crynhoi'r erthygl neu'r erthygl nodwedd) a chapsiynau lluniau. Ar wahân i wirio cynnwys ysgrifenedig, byddwch yn sicrhau bod yr erthyglau iawn yn ymddangos yn y lle iawn ar bob tudalen o'r cyhoeddiad. Gellid disgwyl i chi ddylunio a chysodi'r tudalennau, naill ai trwy ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith neu system rheoli cynnwys. Mewn rhai achosion, gallech ysgrifennu eitemau bach ar gyfer y cyhoeddiad. Byddwch yn paratoi darnau nodwedd rheolaidd, megis tablau o ganlyniadau chwaraeon neu gystadlaethau i'r darllenwyr. Mae is-olygyddion fel arfer yn gweithio yn rhan o dîm, gan drafod materion â newyddiadurwyr, golygyddion, dylunwyr a'r adrannau marchnata a chynhyrchu. Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi siarad ag awduron i egluro unrhyw fanylion nad ydych yn siwr ohonynt.

Byddwch yn gweithio i derfynau amser llym, ac mae'n rhaid gweithio'n gyflym iawn os oes yna unrhyw straeon munud olaf neu eitemau i'w hychwanegu at y cyhoeddiad.

Wrth gyhoeddi llyfrau, byddwch yn gwneud gwaith tebyg trwy edrych ar lawysgrifau. Fel arfer, byddwch yn ymdrin â darnau mwy o waith, a bydd gennych derfynau amser hirach na'r rheiny sy'n gweithio mewn papurau newydd. Fodd bynnag, ni chewch wneud newidiadau mawr yn y gwaith heb gael sêl bendith yr awdur neu ei olygydd. Gallai darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Is-olygydd, bydd arnoch angen:

- bod wrth eich bodd ag ysgrifennu, geiriau a'r defnydd o iaith.
- gwybodaeth gadarn o ramadeg, atalnodi a sillafu.
- llygad dda am fanylder.
- y gallu i weithio'n gyflym ond yn gywir o fewn terfynau amser mewn amgylchedd prysur dros ben.
- doethineb a chrebwyll wrth egluro wrth newyddiadurwyr pam rydych chi wedi gwneud newidiadau penodol.
- gwybodaeth o faterion cysodi a dylunio, cyfraith y cyfryngau a hawlfraint.
- llythrennedd TGCh, gan gynnwys sgiliau cyhoeddi pen-bwrdd

. Mae'n bosib y bydd angen i Is-olygyddion sy'n gweithio ar wefannau fod â gwybodaeth o feddalwedd dylunio gwefannau a systemau rheoli cynnwys. Byddwch angen sgiliau ysgrifennu a chreadigrwydd er mwyn ailysgrifennu copi a chreu penawdau, capsionau i luniau a 'standfirsts', sef cyflwyniadau byr i erthyglau.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog Cyfraddau cyflog bras yw'r rhai a nodir isod.

- Cychwyn: £25,000 - £28,000
- Gyda phrofiad: £30,500 - £37,000
- Safleoedd uwch: yn ennill £41,000 - £45,000

Oriau gwaith Gall yr oriau gwaith gynnwys dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr, sifftiau, a gweithio ar benwythnosau. **Ble y gallwn i weithio?** Mae cyflogwyr yn cynnwys papurau newydd a chylchgronau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â chyhoeddwr ar-lein. Mae cyflogwyr eraill yn cynnwys adrannau llywodraeth leol a chenedlaethol, a chwmnïau masnachol a diwydiannol mawr, lle mae Is-olygyddion yn gweithio ar ddeunyddiau megis cylchlythyrau, gwefannau a chylchgronau cwmnïau. Mae'n bosibl i Is-olygyddion ddod o hyd i waith mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. **Hunangyflogaeth** Mae cyfleoedd i Is-olygyddion profiadol weithio ar eu liwt eu hunain, a byddant yn aml yn arbenigo mewn maes penodol, megis gwyddoniaeth, cyllid neu chwaraeon. **Ble y caiff swyddi eu hysbysebu?** Caiff swyddi eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae swyddi gwag hefyd yn ymddangos ar wefannau megis 'Hold the Front Page' a'r 'Press Gazette', ac mae yna hysbysfyrddau swyddi arbenigol megis journalism.co.uk/. Mae yna asiantaethau recriwtio arbenigol sy'n ymdrin â newyddiaduraeth a chyhoeddi. Mae gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol, megis LinkedIn, Twitter neu Facebook, yn ffordd dda o rwydweithio, dod o hyd i swyddi gwag, a chysylltu â chyflogwyr posibl. Sicrhewch fod eich proffil yn rhoi argraff broffesiynol a fydd yn ddeniadol i ddarpar gyflogwyr. Darllenwch ein Herthygl Wybodaeth Gyffredinol 'Darganfod Gwaith Ar-lein'. Mae'n syniad da adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau perthnasol, gan nad yw pob swydd ym maes newyddiaduraeth yn cael ei hysbysebu. Gall hap-geisiadau am swyddi fod yn ddefnyddiol yn y diwydiant hwn.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad a hyfforddiant Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn raddedigion. Fel arfer, nid yw'r pwnc gradd a ddewiswch yn bwysig. Fodd bynnag, os byddwch yn gweithio i gyhoeddiad arbenigol, er enghraifft cyfnodolyn technegol neu wyddonol, efallai y bydd arnoch angen gradd gysylltiedig. Er mwyn gweithio fel Is-olygydd i bapur newydd, fel arfer bydd angen i chi gwblhau cwrs newyddiaduraeth sydd wedi'i gymeradwyo sy'n cynnwys is-olygu. Mae rhai cyflogwyr eraill hefyd yn gofyn am gymhwyster newyddiaduraeth (is-olygu). Mae'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) yn achredu cyrsiau hyfforddi. Mae diploma'r NCTJ mewn newyddiaduraeth yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar Newyddiadurwyr dan hyfforddiant (gan gynnwys Is-olygyddion) ar gyfer gwaith lefel mynediad proffesiynol. Mae'r Diploma yn eich galluogi i ddilyn opsiwn arbenigol mewn Newyddiaduraeth Gynhyrchu (is-olygu). Mae Brighton Journalist Works yn cynnal cwrs diploma llwybr carlam yr NCTJ (14 wythnos) a thystysgrif yr NCTJ mewn is-olygu (9 wythnos yn rhan-amser neu 7 diwrnod yn llawn-amser). Mae cymhwyster cenedlaethol mewn newyddiaduraeth (NQJ) yr NCTJ ar gyfer hyfforddeion sydd ag o leiaf 18 mis o brofiad o weithio ar bapur newydd neu gydag asiantaeth newyddion. Mae'r NQJ ar gael mewn pedwar maes newyddiaduraeth, gan gynnwys is-olygu. Mae hyfforddiant mewn sgiliau perthnasol hefyd ar gael gan sefydliadau megis:

- the Publishing Training Centre (PTC)
- the London School of Publishing (LSP)
- editorial Training
- the Professional Publishers Association (PPA).

Ffordd dda o gael mynediad i'r yrfa hon yw drwy interniaeth. Darllenwch ein herthygl wybodaeth 'Interniaeth', am fwy o fanylion. **Profiad Gwaith** Mae rhai Is-Olygyddion yn Ohebwr profiadol. Yn draddodiadol, roedd hwn yn llwybr mynediad cyffredin. Fodd bynnag, mae llawer o bobl bellach yn dechrau eu gyrfaedd drwy arbenigo mewn is-olygu. Ar gyfer meysydd gwaith penodol, efallai y bydd angen gwybodaeth a chymwysterau gwybodaeth a chymwysterau arbenigol arnoch, er enghraifft, yn y gyfraith, iechyd a chyhoeddiadau gwyddonol. Os hoffech chi gael rhywfaint o hyfforddiant, mae NCTJ yn cynnig tystysgrif mewn hanfodion is-olygu. Mae pynciau'r cwrs yn cynnig:

- gwirio ac ailysgrifennu
- penawdau ysgrifennu
- y defnydd o luniau
- sylfaen y cynllun
- gwirio'r cynnyrch terfynol

Ewch i'n gwefan i gadarnhau dyddiadau ac argaeledd. Mae'n bosib bod cyrsiau eraill ar gael yn eich ardal chi. **Datblygiad** Gallech ddechrau trwy weithio ar destun yn unig, cyn cael cyfrifoldeb dros faterion dylunio a chynllunio. Gyda phrofiad o ysgrifennu penawdau, crynodebau a chapsiynau, gallech fynd ymlaen i ysgrifennu erthyglau

nodwedd. Mae modd camu ymlaen i swyddi Prif Is-olygydd neu Olygydd Cynhyrchu. Mae rhai Is-olygyddion yn mynd ymlaen i weithio ar eu liwt eu hunain.

Cymwysterau

Er mai'r cymwysterau gofynnol ar gyfer mynediad yw 5 TGAU (A*-C) neu gyfwerth, gan gynnwys Saesneg, mae'n anghyffredin cael mynediad i'r yrfa ar y lefel hon. Mae'n bosibl dilyn rhai o gyrsiau achrededig y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) gyda 2 gymhwyster Safon Uwch; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn raddedigion. Er mwyn cael mynediad i gwrs gradd mewn unrhyw bwnc, fel arfer mae'n ofynnol cael:

- 2/3 chymhwyster Safon Uwch
- 5 TGAU gradd C/4 neu uwch.

Fodd bynnag, mae gofynion mynediad yn amrywio'n fawr o'r naill gwrs i'r llall. Mae'n bosibl y bydd cymwysterau cyfwerth, megis cymwysterau BTEC Lefel 3 a Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol yn dderbyniol i gael mynediad - darllenwch wefannau'r colegau/prifysgolion yn ofalus. Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag un cymhwyster Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Sgiliau/profiad Mae rhai Is-golygyddion yn ohebwy profiadol. Yn draddodiadol, roedd hwn yn llwybr mynediad cyffredin. Fodd bynnag, erbyn hyn mae llawer o bobl 'nawr yn dechrau eu gyrfaoedd trwy arbenigo ym maes is-olygu. Ar gyfer rhai meysydd gwaith, efallai y bydd arnoch angen gwybodaeth a chymwysterau arbenigol, er enghraifft cyhoeddi ym meysydd y gyfraith, iechyd a gwyddoniaeth. **Cyrsiau** Os nad oes gennych y cymwysterau, fel arfer bydd angen i chi ddilyn cwrs gradd, ac efallai y gallwch ymuno â chwrs gradd ar ôl cwblhau cwrs Mynediad mewn coleg neu brifysgol, er enghraifft y cwrs Mynediad i Newyddiaduraeth. Fel arfer, does dim angen unrhyw gymwysterau i ddechrau cwrs Mynediad, ond dylech wirio manylion y cwrs unigol. Mae yna gyrsiau carlam (18-22 wythnos fel arfer) ar gyfer Diploma mewn Newyddiaduraeth y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) (sy'n cynnwys opsiwn is-olygu). I gael lle ar y cwrs, efallai y bydd arnoch angen gradd neu gymwysterau Safon Uwch; bydd rhai darparwyr cyrsiau yn derbyn pobl heb y cymwysterau hyn os oes ganddynt y profiad newyddiaduror neu nawdd cyflogwr. **Dysgu o bell** Mae'r NCTJ yn cynnig ei Ddiploma mewn Newyddiaduraeth trwy ddysgu o bell. Mae'r Ganolfan Hyfforddiant Cyhoeddi, neu'r Publishing Training Centre (PTC), yn cynnal cyrsiau dysgu o bell mewn sgiliau perthnasol, gan gynnwys <G ID="337"> prawfddarllen , golygu copi ac ymchwilio i luniau. Mae Hyfforddiant Golygyddol (Editorial Training) yn cynnal cwrs prawfddarllen trwy ddysgu o bell. **Nawdd**

Mae nawdd ar gael gan gronfa Journalism Diversity a chronfa goffa George Viner ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig a chymdeithasol amrywiol. Mae nawdd arall ar gael gan:

- Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.
- Cynllun Hyfforddeion Newyddiaduror y BBC.
- Guardian Media Group, Scott Trust.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Arts and Humanities Research Council (AHRC)**
E-bost enquiries@ahrc.ac.uk
Gwefan www.ahrc.ac.uk
- **Publishing Training Centre at Book House**
E-bost publishing.training@bookhouse.co.uk
Gwefan www.train4publishing.co.uk
- **National Council for the Training of Journalists (NCTJ)**
E-bost info@nctj.com
Gwefan www.nctj.com

- **The National Union of Journalists (NUJ)**
Ffôn 020 78433700
E-bost info@nuj.org.uk
Gwefan www.nuj.org.uk/work/careers/
- **Professional Publishers Association (PPA)**
E-bost info@ppa.co.uk
Gwefan www.ppa.co.uk
- **Society for Editors and Proofreaders (SfEP)**
E-bost administrator@sfep.org.uk
Gwefan www.sfep.org.uk
- **London School of Publishing (LSP)**
E-bost enquiries@publishing-school.co.uk
Gwefan www.publishing-school.co.uk
- **Women In Publishing (WiP)**
Gwefan www.womeninpublishing.org.uk
- **Publishers Association (PA)**
E-bost mail@publishers.org.uk
Gwefan www.publishers.org.uk
- **Journalism Diversity Fund**
E-bost journalismdiversityfund@nctj.com
Gwefan www.journalismdiversityfund.com
- **BBC Journalism Trainee Scheme**
E-bost careers@bbchrdirect.co.uk
Gwefan www.bbc.co.uk/jobs/jts/
- **Guardian Media Group (GMG)**
E-bost contact@gmgplc.co.uk
Gwefan www.gmgplc.co.uk
- **journalism.co.uk**
Gwefan www.journalism.co.uk
- **Press Gazette: Journalism Today**
E-bost pged@pressgazette.co.uk
Gwefan www.pressgazette.co.uk
- **Hold the Front Page**
E-bost editor@htfp.co.uk
Gwefan www.holdthefrontpage.co.uk
- **NUJ Freelance Fees Guide**
Gwefan www.londonfreelance.org/feesguide/index.html
- **The Bookseller**
E-bost bookseller@escosubs.co.uk
Gwefan www.thebookseller.com
- **Brighton Journalist Works**
Cyfeiriad The Argus, Argus House, Crowhurst Road, Hollingbury, Brighton BN1 8AR
Ffôn 01273 540350
E-bost info@journalistworks.co.uk
Gwefan www.journalistworks.co.uk/sub-editing-course.html

- **Publishing Scotland**
Scottish enquiries
E-bost enquiries@publishingscotland.org
Gwefan www.publishingscotland.co.uk
- **Society of Young Publishers (SYP)**
E-bost sypchair@thesyp.org.uk
Gwefan www.thesyp.org.uk
- **Bookcareers**
Gwefan www.bookcareers.com
- **Inside Book Publishing**
Author: Giles Clark Publisher: Routledge
- **Editorial Training**
E-bost info@edittrain.co.uk
Gwefan www.edittrain.co.uk

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Argraffwr Peiriant
- Gweithiwr Reprograffeg
- Gorffennwr Argraffu
- Argraffwr Sgrin
- Golygydd
- Cynorthwy-ydd Golygyddol
- Darllenydd Proflenni
- Cyhoeddwr
- Geiriadurwr
- Arbenigwr Argraffu 3D